CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 11 Mawrth 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Geraint Owen, Glyn Hughes, Arthur Jones, Trefor Jones, Owain Owen, Ffion Roberts, Ifan P Rowlands, John T Rowlands, Cyng John W Griffith - Talybolion

Ymddiheuriadau John Griffith, Peredur Hughes, Iona Phillips, Hugh Williams, Cynghorwyr Ken P Hughes a Llinos Medi Huws - Talybolion

Datgan diddordeb Cynghorydd JW Griffith – eitem 2.1

1 **Cofnodion cyfarfod Mawrth 2014**
Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Ionawr 2014 gyda Mr Owain Owen yn cynnig a Mrs Ffion Roberts yn eilio.

2 **Cynllunio**
2.1 47C138: Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy dwbl arwahan yn / Full application for alterations and extensions together with the erection of a detached double garage at : *Bryn Llwyd, Llantrisant, LL65*
Dim gwrthwynebiad i'r cais yma ond sylwi'r bod yr ymgeisydd yn gwneud bob peth yn ddwbl!

3 **CSYM**
3.1 Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i aelodau cyngor tref a chymuned
Roedd Cadeirydd Pwyllgor Safonau CSYM wedi ysgrifennu ynglŷn ag ymateb cynghorau i hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad llynedd. Roedd un aelod o Dref Alaw wedi mynd i'r hyfforddiant ag oedd un wedi methu oherwydd pwysau gwaith. Mae CSYM yn holi am y posibilrwydd o hyfforddi'r Clerc ag i'r Clerc rannu'r hyfforddiant gydag eraill ar eu Cyngor.
Derbyn mwy o hyfforddiant OND dim i orfodi'r Clerc hyfforddi'r Cyngor.

3.2 Ymgynghori Cyhoeddus: Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa – Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol
www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/consultations
Nodwyd. Nad oedd cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt wedi ei gynnal ers dipyn.

3.3 Grantiau ar gael o CFIW i ardal Llyn Alaw
Roedd grantiau i fynnu at £1,500 ar gael i fynediadau yn yr ardal. Trafodwyd y posibilrwydd gall y Neuadd Bentref buddsoddi o hwn a bu'r Clerc yn holi'n bellach rhagofn bu'r dyddiad cau ar ddiwedd y mis.

4 **Un Llais Cymru**
4.1 Aelodaeth 2014-15 (£68)
Penderfynu cario ymlaen gyda'r aelodaeth eto eleni.
4.2 Motions for 2014 Annual Conference and AGM - Cynigion ar gyfer Cynhadledd Flynyddol/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014 : Nodwyd
4.3 Repeal of s.150 (5) of the Local Government Act 1972 - Implementation - Diddymu a.150 (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Gweithredu : Nodwyd

5 **Ceisiadau am gymorth ariannol**
Bu nifer o gaisiadau am gymorth ariannol wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn.
Dan LGA 1972, rheol 137, penderfynwyd cefnogi Ambiwlans Awyr Cymru £100; Y Rhwyd £50; Macmillan £50 a Age Cymru – Gwynedd a Môn £50

6 **Materion a codwyd**
Penderfynwyd codi cyflog y Clerc i £1,700 y flwyddyn.

Taliadau	Neuadd Bentref Llanddeusant – costau	£110
	Clerc (gan cynwys costau)	£2,000

Arian i mewn